## Ni allaf fynegi yr hyn a deimlais – Mair Magdalen

**Darllen Mathew 28:1–10**

Ni allaf fynegi yr hyn a deimlais,
wedi'r arswyd a'r galar,
y tywyllwch a'r anobaith,
cael clywed y newydd syfrdanol –
fod Iesu'n fyw!
Bûm mewn dryswch llwyr tan hynny,
yn methu dychmygu'r boen a ddioddefodd,
a hynny gyda'r fath urddas a gwroldeb.

Fe'n rhybuddiodd i ddisgwyl y gwaethaf,
a gwyddem yn ein calonnau beth oedd ar y gorwel,
ond roeddem yn gwrthod ei dderbyn,
yn gobeithio y deuai ffordd arall,
ffordd lai costus y gallai ei dilyn.

Ond wrth gerdded at y bedd y bore hwnnw,
yr oedd y gobeithion hynny wedi eu chwalu,
wedi eu claddu gyda'n Harglwydd.
Yr oeddem yn ddall i bopeth ond ein galar,
ond wedi cyrraedd y fan a gweld y maen wedi ei dreiglo,
ni wyddem beth i'w wneud na'i ddweud.

Dyna'r pryd y torrodd y newydd arnom:
'Nid yw ef yma.
Y mae wedi cyfodi.
Dewch i weld lle bu'n gorwedd.'
Gan ofni mai breuddwyd ydoedd, yr oeddem yn gyndyn i edrych,
ond o'r diwedd magwyd digon o ddewrder i fentro,
ac, yn wir i chi,
yr oedd wedi mynd! –
dim ond y llieiniau a adawyd yn nodi'r fan lle bu'n gorwedd.

Gallwch ddychmygu ein teimladau,
ein calonnau yn llamu o gyffro;
ond yr oedd mwy i ddod,
rhywbeth llawer mwy rhyfeddol,
oherwydd wrth i ni redeg i rannu'r newyddion,
gwelsom ef o'n blaenau,
a'i freichiau ar led i'n croesawu,
yn disgwyl i'n cyfarch yn ei ffordd arferol.
Yr oedd wedi cyfodi, fel y dywedodd wrthym,
ni allodd angau ei gaethiwo!
Ond y mae'n bwysig i chi wybod

nad Iesu yn unig a gyfododd y diwrnod hwnnw,
ond pawb ohonom;
oherwydd yno, yn yr ardd, dechreuodd bywyd o'r newydd,
y bywyd yr oeddem yn credu a fu farw ynom am byth –
gobaith wedi ei aileni,
ffydd wedi ei adnewyddu,
cariad wedi ei ailgynnau,
llawenydd wedi ei adfer –
a gwyddem bellach na ellid ein dinistrio mwyach,
oherwydd yr oedd y prawf
yn sefyll yn ein hymyl!

**Gweddi:**
O! Dduw grasol,
drwy atgyfodiad Iesu Grist,
adnewyddaist ac adferaist ei ddisgyblion hefyd.
O ddyfnder diflastod daeth gorfoledd;
o bydew anobaith daeth gobaith;
o anialwch amheuaeth daeth ffydd.
Yr wyt ti ar waith o hyd,
pa le bynnag y mae gobaith yn brin
a ffydd wedi diflannu.
Gweithia arnom ninnau yn awr,
adnewydda ein calonnau ac adfer ein hysbrydoedd,
gwna ni'n greadigaeth newydd,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***